

Trosolwg



Mae The Wallich wedi cynnal Prosiect Tai'n Gyntaf Ynys Môn ers 2013. Cawsom ein dewis i ddarparu cynllun peilot 12 mis yn seiliedig ar **angen penodol i gefnogi 25 o bobl**, oedd yn cysgu allan yn rheolaidd a/neu'n achosion o ddigartrefedd mynych ar yr ynys.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae 74% o'r rhai yr ydym wedi eu cynorthwyo wedi llwyddo i sicrhau a chynnal llety. Mae Tai'n Gyntaf yn gweithio ar yr egwyddor, yn hytrach na disgwyl i unigolion sydd ar hyn o bryd yn byw ar y stryd fynd trwy nifer o gamau i ddod yn annibynnol, dylid cynnig tenantiaeth annibynnol iddynt heb unrhyw ragofynion ar gyfer mynediad a dylent dderbyn cefnogaeth ddwys a phendant.

Mae ein tîm yn hyddysg mewn trawma ac yn dilyn model cefnogaeth therapiwtig. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan nifer o ymyriadau creadigol sy'n cael eu darparu gan ein hadran cyfranogiad a chynnydd ymroddedig fel dosbarthiadau celf, gwirfoddoli yn seiliedig ar dreftadaeth, cymwysterau ymarferol a gweithgareddau awyr agored, i enwi dim ond rhai.

Prif ffigurau 2018

Eleni rydym wedi cynorthwyo:



Ystod oed:

16-17: 0 (0%)
18-25: 1 (2%)
26-35: 22 (42%)
36-50: 23 (44%)
51-64: 5 (10%)
65+: 0 (0%)

42 o wrywod (81%)



10 o fenywod (19%)

Sefyllfaoedd pobl yr ydym yn eu cynorthwyo ar hyn o bryd **(25)**



60%

Mewn llety



20%

Mewn gwely a brecwast



20%

Sofa-surfing



Mae Rhwydwaith Tai'n Gyntaf Cymru, ochr yn ochr â Cymorth Cymru, wedi llunio set o egwyddorion i benderfynu i ba raddau y mae prosiect yn cyflawni Tai'n Gyntaf. Mae uchafswm sgôr o 30 i gyd-fynd â'r egwyddorion. Mae The Wallich yn falch o ddweud bod Tai'n Gyntaf Ynys Môn yn sgorio **28**, ac rydym yn gweithio i godi'r sgôr yma. Mae The Wallich hefyd yn aelod gweithgaredd o Rwydwaith Tai'n Gyntaf, sy'n gweithio i hybu a llunio Tai'n Gyntaf drwy'r wlad.

Prif ddigwyddiadau 2018



Mawrth – Eitem ar raglen BBC Radio 4 - rhaglen gylchgrawn ar fore Sul

Eitem ar ddigartrefedd ac astudiaeth achos fanwl lle cafodd Toby, un o gleientiaid The Wallich ei gyfsweld: "Dyna'r peth gorau sydd wedi digwydd i mi erioed – roeddwn ar y pwynt o anobeithio"

Ebrill - Cawsom ein comisiynu i gynorthwyo pump o bobl ychwanegol oedd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl gan hwyluso'r broses o'u rhyddhau o uned iechyd meddwl diogel – cyflogwyd Uwch Weithiwr Cefnogi ychwanegol

Gorffennaf – Ymweliad Rebecca Evans AC, Cyn-weinidog Tai ac Adfywio. Dyma ei sylwadau: "Er mai prosiect ar raddfa fach yw hwn, mae'n helpu i wella bywydau pobl ac mae'n cael effaith fawr."

Awst – Daeth ein prosiect Tai'n Gyntaf a chymuned Ynys Môn ynghyd i gynnal diwrnod hwyl elusennol ym Mhorth Amlwch, gan godi mwy na £1,000 ar gyfer teithiau fyddai'n newid bywydau ein cleientiaid

Hydref – Wedi symud i swyddfeydd mawr,


mwy addas o fewn canolbwynt y gymuned i allu cynnig gwell cefnogaeth ac integreiddio

Hydref – Cyflogwyd Swyddog Ymyriadau Tai, a gomisiynwyd gan Cyfiawnder Cymru, i weithio gyda throseddwyr risg isel-canolig trwy'r Gwasanaeth Prawf

Tachwedd - Cawsom ein comisiynu i gynorthwyo pump o bobl ychwanegol ag anghenion iechyd meddwl penodol i lety camu-i-lawr

Prif gyflawniadau 2013 - 2018

Rydym wedi cynorthwyo **151 o bobl**



Mae **74%** o'r bobl yr ydym wedi eu cynorthwyo'n dal mewn llety



Daeth 11 o bob o hyd i waith




Dechreuodd 5 o bobl wirfoddoli



1 person mewn addysg

Lle maen nhw rŵan?




"Mae'r effaith ar fy mywyd, y llwybr mae wedi'i greu i mi ei ddilyn, yn anfesuradwy."

Adborth Cleientiaid

"Yr amser a dreuliais yn cael cymorth gan The Wallich yw'r cyfnod cyflymaf i mi erioed wella. Mae'n teimlo fel pe bai gen i lwybr i'w ddilyn er mwyn gwella, rhywbeth na fu gen i erioed o'r blaen."

"Mae'n hawdd gweithio gyda nhw. Doeddwn i ddim yn gallu gweithio gyda'r rhai wnaeth gynig cefnogaeth i mi yn y gorffennol. Mae The Wallich wastad yn gwneud eu gorau i fy helpu a datrys unrhyw broblemau sydd gen i."

"Daeth fy ngweithiwr cymorth i fy adnabod. Ac roeddwn yn teimlo'n gyfforddus iawn yn cael cymorth trwy gyfrwng fy mamiaith –sef Cymraeg."



Rebecca Evans AC, Cyn-weinidog Tai ac Adfywio

"Rwy'n awyddus i weld pa wersi y gellir eu dysgu gan y tîm ysbrydoledig yma, a beth allwn ni ei rannu gyda phrosiectau peilot eraill wrth i ni weithio gyda chynghorau i rannu arfer gorau a datblygu dulliau Tai'n Gyntaf drwy Gymru."